**LC250**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Gofalwyr (Gwasanaethau) a Thaliadau Uniongyrchol (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 yn caniatáu i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau i gynorthwyo gofalwyr.

O dan adran 2 o'r Ddeddf, gall gwasanaeth o'r fath gael ei gyflwyno yn uniongyrchol i'r person sy'n derbyn gofal gyda chytundeb y gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal. Ond ni chaiff gwasanaeth uniongyrchol felly, ac eithrio o dan "amgylchiadau rhagnodedig" gynnwys unrhyw beth "personol agos ei natur".

Yr "amgylchiadau rhagnodedig" yw'r rheiny y gellir eu rhagnodi gan reoliadau a wneir gan y Cynulliad. Mae rheoliad 2(2) o'r rheoliadau sydd o dan sylw ar hyn o bryd yn gwneud darpariaeth felly.

Yn ychwanegol, caiff rheoliadau a wneir gan y Cynulliad wneud darpariaeth ar gyfer yr hyn sydd, neu nad yw, "yn bersonol agos ei natur". Mae rheoliad 2(1) o'r rheoliadau presennol yn gwneud darpariaeth felly.

O dan adran 1 o Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1996 caiff awdurdod sydd wedi penderfynu darparu gwasanaethau o dan adran 2 o Ddeddf 2000, os yw'r person sy'n derbyn gofal yn cydsynio, wneud taliadau i'r person hwnnw er mwyn sicrhau'r gwasanaethau ei hun.

Ond ni ellir gwneud hyn os yw'r person o ddisgrifiad a bennir gan y rheoliadau a wneir gan y Cynulliad o dan adran 1(1)(b)(ii) o Ddeddf 1966.

Mae rheoliad 3 o'r rheoliadau presennol yn pennu disgrifiad o bersonau i'r diben uchod.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Er bod y dyddiad dod i rym, sef 1 Gorffennaf 2001, wedi'i fewnosod ar frig y rheoliadau, ni chafodd y dyddiad hwn ei fewnosod yn rheoliad 1(1).

Ystyrir y gellid gwneud y cywiriad angenrheidiol naill ai drwy Femorandwm Cywiriadau neu pan fydd y Gorchymyn yn cael ei argraffu.

Ar yr amod bod camau priodol yn cael eu cymryd i gywiro'r uchod, nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan RhS 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Teitl**

Er mwyn ei gwneud yn glir fod yr elfen "Diwygio" yn y teitl yn ymwneud â'r "Taliadau Uniongyrchol" yn unig, gallai fod o gymorth i ddefnyddwyr pe rhoddid coma ar ôl "Uniongyrchol". Gellid gwneud hyn wrth argraffu.

**Y rhaglith - troednodyn (b)**

Dylai'r troednodyn gyfeirio at Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau i ddangos bod swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf 1996 wedi'i throsglwyddo i'r Cynulliad. Mae'n ymddangos nad oes ddarpariaeth yn Neddf 2000 i'r perwyl bod swyddogaethau newydd yr Ysgrifennydd Gwladol a gyflwynwyd i Ddeddf 1996 i'w trin fel pe baent wedi'u trosglwyddo o dan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau. Pe bai darpariaeth felly wedi bod, dylid bod wedi ei henwi yn y troednodyn. Er hynny, yr ydys yn derbyn, hyd yn oed heb ddarpariaeth felly, bod y swyddogaeth i wneud rheoliadau yn adran 1(1)(b)(ii) o Ddeddf Gofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) 1966 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 5(b) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000) i'w hystyried fel

swyddogaeth a drosglwyddwyd i’r Cynulliad yn rhinwedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999.

Glyn Davies AC
**Cadeirydd Dros Dro y Pwyllgor Deddfau**

15 Mai 2001